



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tyddyn Môn**

**Tyddyn Môn  
Hendy Brynrefail  
Dulas  
Amlwch  
LL70 9PJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

28/06/2023

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.**

*Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:*

*[psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*

*Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Tyddyn Môn

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Tyddyn Môn
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Hwn yw arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers iddo ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y cymorth a ddarperir ac maent yn cael eu cynnwys yn llawn yn y penderfyniadau a wneir am y gofal a'r cymorth a gânt. Rhoddir blaenoriaeth i hyrwyddo annibynniaeth y bobl ac i roi dewisiadau a rheolaeth iddynt. Caiff cyfleoedd eu trefnu i'r bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a digwyddiadau yn y gymuned. Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed ond cânt hefyd eu hannog i gymryd risgiau, mewn ffordd ddiogel wedi'i rheoli. Mae perthnasau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn canmol y gofal, y cymorth a'r cyfleoedd a ddarperir yn fawr. Mae'r staff yn hapus iawn yn gweithio yn y gwasanaeth, ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau ac yn cael yr hyfforddiant priodol. Mae trefniadau strwythuredig a thrylwyr ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth yn barhaus er mwyn sicrhau bod y bobl yn cyflawni eu canlyniadau delfrydol. Mae barn y bobl o ran sut y caiff y gwasanaeth ei redeg yn hynod bwysig, ac mae'r gwasanaeth yn mynd ati i'w holi ac yn gweithredu ar unrhyw ymatebion wrth ddatblygu'r gwasanaeth. Mae'r rheolwyr yn awyddus i wella a datblygu'r gwasanaeth a ddarperir yn gyson, hyd yn oed yn ystod cyfnodau heriol megis y pandemig. Caiff enghreifftiau o arferion da sydd wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r bobl eu rhannu'n eang ar draws y sector ac mae trefniadau ymgysylltu ar waith â gwneuthurwyr polisi cenedlaethol er mwyn trafod sut y gellir gwella bywydau pobl ag anableddau dysgu.

## Llesiant

Caiff hawliau'r bobl eu hyrwyddo. Rhoddir y statws uchaf i leisiau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar bob lefel o'r gwasanaeth. Darperir cymorth i alluogi'r bobl i wneud dewisiadau o ran sut yr hoffent fyw eu bywydau. Mae dewisiadau ar gael i'r bobl ym mhob agwedd ar eu bywyd o ddydd i ddydd, felly mae gan y bobl gymaint o reolaeth dros eu bywydau â phosibl bob amser. Dywedodd y bobl eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt a'u bod yn teimlo'n fodlon gan eu bod yn gallu gwneud eu dewisiadau a'u penderfyniadau eu hunain.

Mae'r bobl yn hapus ac yn canmol y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Mae'r adborth a gawsom gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cynnwys: *“excellent”, “brilliant”, “good staff”, “I like my staff”, “very happy”, “good fun”, “staff are nice”* a *“staff are like family”*. Caiff y bobl eu hannog i fod yn uchelgeisiol a rhoddir cymorth iddynt gyflawni eu nodau yn llwyddiannus.

Caiff y bobl eu cefnogi i ddatblygu i'w llawn botensial. Defnyddir ffordd o weithio gyda'r bobl sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau er mwyn datblygu a gwella eu hannibynniaeth yn barhaus. Gwelsom sawl enghraifft lle roedd bywydau'r bobl wedi cael eu newid yn sylweddol yn sgil y sgiliau roeddent wedi'u dysgu, y gweithgareddau roeddent wedi cymryd rhan ynddynt a'u cyfranogiad yn y gymuned. Yn aml, mae'r llwyddiannau hyn hefyd yn digwydd o fewn cyfnod byr o amser. Gwelsom sawl enghraifft lle roedd y bobl wedi symud ymlaen i fyw yn eu cartrefi eu hunain yn y gymuned, lle nad oedd angen fawr ddim cymorth parhaus arnynt. Dywedodd y staff wrthym eu bod eisiau cefnogi'r bobl *“to have a full and enriched life”* ac i *“see people grow”* a *“flourish”*. Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau cyfrannu at wella bywydau'r bobl ac yn falch o gyflawniadau'r bobl. Dywedodd y perthnasau wrthym eu bod wedi gweld *“incredible development”* a'u bod wedi sylwi ar *“increase in confidence”* yn eu perthynas.

Mae'r bobl yn gallu cyfrannu at eu cymuned. Mae trefniadau ar waith i alluogi'r bobl i chwarae rhan yn eu cymuned mewn gwahanol ffyrdd. Caiff y bobl eu cefnogi i fynd i siopa, i fynd i ddiwyddiadau cymdeithasol, i wirfoddoli, i gymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon a, dros amser, i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn annibynnol, os byddant am wneud hynny. Dywedodd llawer o berthnasau wrthym eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth yn *“excellent”*, a bod ganddynt *“great deal of trust and confidence”*. Maent o'r farn bod y staff yn *“very helpful and supportive”, “caring”, “brilliant”, “friendly and approachable”*.

Caiff iechyd corfforol a meddyliol y bobl a'u llesiant emosiynol eu hybu. Mae'r cofnodion yn dangos bod anghenion iechyd ac anghenion emosiynol y bobl yn hysbys cyn iddynt gael gwasanaeth. Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg ar waith i hysbysu'r gweithwyr gofal sut y mae pob person yn dymuno cael ei gefnogi, ac i nodi beth y mae'n rhaid i'r staff

gofal ei wneud i alluogi'r bobl i gadw'n iach. Mae'r teuluoedd yn cael eu cynnwys yn y broses cynllunio gofal, lle y bo'n briodol, sy'n helpu i sicrhau parhad gofal i'r bobl. Mae'r staff yn gyfarwydd ag anghenion unigol y bobl ac yn cael yr hyfforddiant cywir i'w helpu i roi'r gofal cywir i'r bobl.

## Gofal a Chymorth

Caiff gwaith paratoi helaeth ei gwblhau cyn i bobl newydd ddechrau cael gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir o'r dechrau. Gwelsom ymdrechion gwybodaeth i gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl gan y person ei hun o ran y cymorth y byddai'n hoffi ei gael a'r canlyniadau y byddai'n hoffi eu cyflawni. Caiff gwybodaeth bellach ei chasglu gan y teuluoedd, y bobl sy'n rhoi cymorth i'r person ar y pryd, a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ei adnabod. Caiff cyfleoedd eu trefnu er mwyn i'r bobl ddod i adnabod y staff a fydd yn eu cefnogi cyn i'r gofal ddechrau. Mae'r bobl sydd eisoes yn defnyddio'r gwasanaeth wedi creu amrywiaeth o adnoddau, megis fideos byr, sy'n esbonio i'r bobl beth y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Gwelsom fod y bobl yn cael profiad cadarnhaol a'u bod yn trosglwyddo i'r gwasanaeth yn ddidrafferth pan fyddant yn dechrau cael gwasanaeth.

Darperir gofal a chymorth o ansawdd uchel sy'n galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau dymunol a thu hwnt. Mae'r bobl a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn ym mhob agwedd ar y broses o gynllunio gofal. Mae pob person yn cael y cymorth unigol sydd ei angen arno i gyfrannu cymaint ag y gall at benderfyniadau am y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arno. Mae dymuniadau a dyheadau personol y bobl wrth wraidd yr holl drafodaethau cynllunio gofal, a chaiff eu barnau eu cofnodi'n fanwl mewn dogfennau cynllunio gofal sy'n hawdd eu deall ac sy'n cynnwys lluniau. Dywedodd y perthnasau wrthym fod y staff yn *“go out of their way to meet individual needs.”* Gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi i ehangu eu profiadau bywyd, i ddysgu sgiliau newydd, i gynyddu eu hannibyniaeth ac i fod yn rhan o'r gymuned y maent yn byw ynddi. Caiff annibyniaeth y bobl ei chynyddu'n sylweddol ar ôl iddynt ddechrau cael gwasanaeth. Caiff asesiadau risg eu defnyddio i annog y bobl i gymryd risgiau cadarnhaol, sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau sy'n amlwg yn gwella'r cyfleoedd sydd ar gael i'r bobl eu mwynhau.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Gwelsom fod cydberthnasau da iawn rhwng y bobl a'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi. Mae'r staff yn rhyngweithio mewn ffordd barchus a chyfeillgar â'r bobl. Mae'r staff a'r tîm rheoli yn dod i adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi'n dda, ac maent yn gyfarwydd ag anghenion unigol pob person. Gwelsom fod cyflawniadau'r bobl yn cael eu cofnodi yn eu dogfennau adolygu gofal a chynhelir sgysiaua parhaus â'r bobl am bethau eraill yr hoffent eu gwneud, eu dysgu, neu gymryd rhan ynddynt nesaf. Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi'n llawn i gyrraedd eu llawn botensial ac i gyflawni eu nodau. Gwelsom fod sawl person wedi symud ymlaen i fyw mewn lleoliadau byw mwy annibynnol yn llwyddiannus oherwydd y canlyniadau cadarnhaol roeddent wedi'u cyflawni. Caiff y bobl eu cefnogi i ymgymryd â chyflogaeth â thâl sy'n gysylltiedig â'u diddordebau a'r hyn y maent yn mwynhau ei wneud. Dywedodd y perthnasau wrthym fod yr aelodau o'u teulu yn cael *“very good quality of life”*, a *“has a lot out of life now”*.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau clir ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth a sicrhau y caiff ei redeg yn ddiraffferth, sy'n cyfrannu at allu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gyflawni nodau'r datganiad o ddiben ac i roi pobl wrth wraidd y gwasanaeth. Gwelsom sawl enghraifft o'r arweinwyr yn ysgogi arloesedd a chynnydd mewn perthynas â'r gwasanaeth a ddarperir. Caiff syniadau eu rhannu'n ehangach â darparwyr eraill a rhanddeilaid. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys treialu taflunwyr rhyngweithiol synhwyrdd a chadeiriau olwyn y gellir eu defnyddio ar unrhyw dir, a gweithio gyda gweithwyr proffesiynol i brofi effeithiolrwydd dyluniadau masgiau clir gwahanol a oedd yn helpu'r bobl i ddarllen gwefusau yn ystod pandemig COVID-19. Caiff cysylltiadau eu meithrin â gwneuthurwyr polisi ar lefel genedlaethol er mwyn ysgogi gwelliannau o rac cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu.

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth mewn fformat y gallant ei ddeall. Mae'r datganiad o ddiben yn disgrifio'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Mae canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael mewn fformat sy'n hawdd ei ddeall ac ar ffurf lluniau, yn ogystal â fideo byr a gyflwynir gan berson sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae hyn yn galluogi'r bobl i wneud penderfyniad hyddysg am ddefnyddio'r gwasanaeth.

Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cymryd rhan yn y broses o gyfnewid â staff newydd a'r broses o wneud penderfyniadau o ran penodi staff newydd. Mae'r staff gofal yn llawn cymhelliant i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl y maent yn eu cefnogi. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan y tîm rheoli. Mae'r adborth a gawsom yn cynnwys *"fantastic company"*, *"great company"*, *"excellent working environment"*, *"proud to be working with fantastic teams"*, *"enjoy every shift"*. Mae'r staff yn canmol ethos gwaith tîm eu cydweithwyr, gan nodi eu bod yn helpu ei gilydd i sicrhau bod y bobl yn cael y gofal gorau posibl; *"abundance of trust and respect for each other"*. Mae llawer o'r staff wedi gweithio yn y gwasanaeth ers blynnyddoedd sy'n golygu eu bod yn brofiadol ac yn fedrus iawn. Mae hyn hefyd yn rhoi cysondeb i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd y perthnasau wrthym eu bod yn teimlo bod hyn yn bwysig a'i fod yn agwedd gadarnhaol ar y gwasanaeth. Mae'r staff yn teimlo bod y cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael iddynt yn *"excellent"* neu'n *"good"* ac mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff yn derbyn hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un yn rheolaidd gyda rheolwr ac yn cael arfarniad blynyddol. Caiff yr holl wiriadau addasrwydd cyn cyflogi gofynnol eu cwblhau cyn i aelodau newydd o staff ddechrau gweithio yn y gwasanaeth.

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod prosesau cadarn ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn gyson. Cydnabyddir mai'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth sydd yn y sefyllfa orau i ddweud sut yr hoffent i'r gwasanaeth wella

a datblygu. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym *“the voices of the people who use the service should be the loudest we listen to”*. Oherwydd hyn, mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu talu am ymgymryd â rolau fel Cynghorwyr Arbenigol i Fwrdd Ymddiriedolwyr darparwr y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol dynodedig yn ymweld â phob lleoliad unigol o leiaf unwaith bob tri mis, er mwyn asesu sut y caiff y gwasanaeth ei redeg. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn defnyddio Safonau REACH (sef adnodd a gydnabyddir yn genedlaethol a ddefnyddir i asesu ansawdd gwasanaethau a ddarperir i bobl ag anableddau dysgu) i gyflwyno adroddiadau ar ei ganfyddiadau ar ôl ymweld â'r gwasanaethau. Mae hyn yn rhoi'r bobl a'u profiadau o ddefnyddio'r gwasanaeth wrth wraidd y broses sydd ar waith ar gyfer monitro ansawdd.



### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb Gyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

## Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

## **A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

**Dyddiad Cyhoeddi 04/09/2023**